

## LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

### Cookes Explosives, Penrhyndeudraeth (1950-54)

Cyfwelai: VN027 Beryl Jones

Dyddiad: 26: 06: 2014

Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary of the interview following the Welsh text*

Cadarnhaodd Beryl ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 20/06/1932

Ganwyd hi ym Mhorthmadog a chafodd ysgol yno tan lefel dau. Disgynnodd hi yn ystod yr haf hwnnw o dop y *shelter* yn y cae ped droed. Dywedodd ei mam mai arni hi roedd y bai ond dywedodd ei nain bod yn rhaid iddi fynd at y meddyg achos roedd ei braich wedi chwyddo'n fawr. Aeth hi at feddyg a wnaeth o ail-setio fo, ond oedd yn rhy hwyr i setio'n iawn ac mae'n chwyddedig o hyd. Ond achos hyn, cafodd hi *TB*. Roedd yn rhaid iddi fynd i ysbyty yn Llangwyfan a cholodd hi bron ddwy flynedd o ysgol. Pan ddychwelodd hi, oedd pawb wedi trïo'r ysgoloriaeth ac roedd yn rhaid iddi fynd i'r Ysgol Central ym Mhorthmadog, er ei bod hi'n siarad mwy o Saesneg nag o Gymraeg. Mae Beryl yn ddig iawn am y blynyddoedd o ysgol roedd hi wedi'u colli, ond aeth hi yn ei blaen ac roedd hi'n dda mewn chwaraeon. Roedd ganddi un brawd yr un oed â hi, a dwy chwaer, - y ddwy chwaer wedi dod yn hwyr, ar ôl y rhyfel.

**Ar ôl gorffen lefel 4, roedd hi'n awyddus i adael yr ysgol a mynd i weithio** a phan awgrymodd ffrind eu bod nhw'n chwilio am waith yn Cookes, aethon nhw lawr i ofyn. Roedd Beryl yn 16 oed. Dechreuodd hi yn yr adran brintio a gadael fel *pay clerk*. Roedd hi'n nabod Mr Griffiths, yr *under manager*, felly chafodd hi ddim cyfweiliad. Roedd cyfle ganddi i fynd i'r *telephone exchange* ar ôl yr ysgol ond doedd hi ddim eisiau, a doedd hi ddim eisiau gweithio mewn siop chwaith. **Gyda'r fraich fel roedd hi, meddai, doedd hi ddim yn gallu gwneud swyddi fel nyrsio neu hair dresser. Doedd hi ddim yn gallu gweithio yn y cytiau o achos y fraich, felly chafodd hi ddim byd i'w wneud efo'r ffrwydrion, a doedd hi ddim yn gallu mynd i mewn i'r cytiau chwaith.**

Roedd hi'n nabod llawr o bobol yno cyn dechrau ac mae'n dweud ei bod hi fel teulu yno, pawb yn nabod ei gilydd, pawb yn hapus. Doedd hi ddim yn nerfus achos doedd na ddim son am ffrwydrad wedi bod yn ddiweddar; roedd hi wedi mynd oddi 'na erbyn y ffrwydrad mawr yn 1957. *One of the crowd oedd hi*, doedd hi ddim yn teimlo'n unig, roedd 'na rywbeth am y lle. Aeth y ferch a aeth i lawr efo hi i ofyn am swydd i'r cytiau i weithio.

Roedd mam Beryl yn mynd allan i lanhau ac roedd ei thad yn saer maen. Roedden nhw'n hapus ei

bod hi wedi cael gwaith. Ei swydd gyntaf yn y *printing* oedd printio'r papur er mwyn lapio'r ffrwydrion; ond âi y papur i adran arall i wneud hyn, doedd y ffrwydrion ddim yn dod i'r stafell brintio. **Roedd Beryl yn gweithio ar beiriant fel peiriant papur newyddion ac roedd y papur yn dod mewn reams mawr ac yn dod allan mewn rholiau. Roedd genod eraill yn gwneud 'tubes' ac yn rhoi'r powdwr mewn iddynt.** Roedd fforman a dwy o genod a thri o ddynion yn gweithio efo hi yn y stafell brintio. Chafodd hi ddim hyfforddiant ond doedd dim llawer i'r swydd, meddai, ac roedd hi'n ei phigo hi i fyny trwy ei gwneud hi.

**12.50 Roedd hi'n mwynhau ond aeth hi o hynny i fod yn glerc i Mr Mitchell, a oedd yn fforman i'r genod powdwr.** Roedd 'na le yno am bethau fel gwneud *urine samples* os oedd rhywun yn gweld y meddyg. Roedd y cwmni yn edrych ar ôl y gweithwyr ac roedd gan y lle feddyg - Dr Pritchard ac wedyn Dr Griffiths - a nyrsys a meddygfa ger y cantîn. Roedden nhw'n rhoi archwiliadau i'r gweithwyr yn rheolaidd. **Roedd Beryl yn sôn bod y gweithwyr yn cael pennau tost ofnadwy, yn enwedig ar ôl gwyliau'r haf achos roedden nhw wedi bod i ffwrdd oddi wrth y gelignit am bythefnos ym mis Awst. Chafodd Beryl fyth gur pen achos doedd hi ddim yn gweithio efo'r powdwr ond roedd ei gŵr yn ddioddef yn ofnadwy. Fitter oedd ei gwr.**

Roedd hi yn yr ystafell brintio am ryw ddeg mis. Roedd hi'n gweithio 44 awr yr wythnos a doedd hi ddim yn gweithio penwythnosau. **Roedd yn rhaid iddi gloccio i mewn a mas a rhif ei cherdyn oedd 323 a'i gŵr yn rhif 77. Mae'n cofio rhifau'r gweithwyr eraill hefyd hyd yn oed ar ôl yr holl amser.**

Amser brêc a hanner awr i ginio, roedd hi'n mynd i'r cantîn. Mrs Williams oedd y rheolwraig. Roedd merch o'r enw Megan Jones yn gweithio yno ac roedd pobl yn ei galw hi'n 'pin up' achos roedd ganddi wallt *blond* gyda *waves*, ac yn dlws iawn, roedd 'pawb yn nabod Megan o Dalsarnau.' (Mae Megan yn dal yn fyw ond gwrthododd gael ei chyfweld). Roedd Megan yn gwasanaethu, gyda dwy arall, a Mrs Williams yn coginio.

Yn y gwaith printio roedd hi'n sefyll drwy'r dydd ond mae'n dweud bod hynny'n iawn. A'i chyflog cyntaf oedd £2 rhywbeth a phan aeth yn *pay clerk*, cododd ei chyflog i £16 y mis. Roedd rhywun wedi gorffen yn y *pay office* a gofynnodd Mr Griffith iddi os oedd hi am gael y swydd. Roedd hi'n hapus iawn i symud i'r swyddfa ac roedd hi'n gweithio efo pedair merch arall - Dorothy, Megan, Mary, a Gwenni. Roedd y gweithwyr ar *piece work* ac roedd y merched yma yn cyfrif faint roedden nhw'n ei gael, gyda'r *overtime* ayyb. Roedden nhw'n cael *time and a half* am *overtime* a *double time* am weithio dydd Sul. Roedd yr oriau ar y cerdyn ac roedd y gweithwyr yn dod â'r cerdyn i'r swyddfa gyflog. Roedd y merched a oedd ar *piece work* yn cael bonws os oedden nhw wedi gwneud llawer o waith a gallai eu cyflog godi yn dda iawn. Gwaith Beryl oedd gweithio hyn allan i gyd ac ar y nos Wener, roedden nhw'n agor ffenestr y swyddfa gyflogi ac roedd dwy ohonynt yn rhoi'r pecynnau i gyd allan. Bydd gweithiwr yn dod at y ffenestr, dweud eu rhif, ac roedd y merched yn chwilio am y pecyn. Roedd yr arian yn dod mewn amlen. **Roedd merched y swyddfa gyflog ar gyflog misol ond roedd gweithwyr y cytiau yn cael eu talu bob wythnos ac roedden nhw'n gallu ennill llawer mwy na merched y swyddfa, meddai Beryl, gyda'r *piece work*, bonws, a gweithio dros amser.** Os nad oedden nhw yn gweithio llawer, dim ond *hourly rate* roedd gweithwyr y cytiau yn ei wneud; ond os oedden nhw wedi gweithio'n galed, roedd bonws yn mynd ar ben hwnnw.

**21.20 Doedd y merched ddim yn gwneud *overtime*, yn ôl Beryl, dim ond y dynion.** Roedd y dynion yn gweithio *overtime*, ee, os oedd peiriant wedi torri lawr ac roedd rhaid iddynt ddod mewn ar y dydd Sadwrn neu ddydd Sul i'w drwsio fo, neu os oedd angen gwaith cynnal ayyb, roedd y dynion yn gwneud hyn fel *over time*.

**Wrth sôn am y cyflogau da yn Cookes, roedd Beryl yn dweud mai dim ond y merched oedd yn gweithio yn y sheathing neu'r pacio oedd yn gallu fforddio dillad o Hebe Sports ym Mhorthmadog. Mae'n cofio merch, Catherine Edwards, ac roedd Hebe Sports hyfryd ganddi. Siwtiau tweed, sgert a siaced, smart iawn o siop Gordon Jones oedd Hebe Sports. Doedd Beryl fyth yn gallu prynu siwt Hebe. Doedd hi byth yn genfigennus achos roedd hi'n meddwl bod y merched yn haeddu cael y dillad yma o ystyried lle roedden nhw'n gweithio.**

*Sheathing* oedd rhoi powdwr mewn i'r tubes? Ond dydy hi ddim yn cofio'n iawn. Pacio oedd rhoi'r gelignit I mewn i yn y cytiau - eto, doedd hi ddim yn gallu cofio beth yn hollol oedd y ddwy swydd yma. Ym mhob cwt roedd tua 4 merch. Yn y cantfn roedd pawb yn cymysgu. **Roedd yn rhaid i ferched y cytiau dynnu eu sgidiau cyn mynd i mewn i'r cytiau a'u gwisgo nhw, gyda'u pethau personal y tu fas. Roedden nhw'n gwisgo overalls ac overboots yn y cytiau.** Yn y swyddfa, roedd Beryl yn gwisgo ei dillad ei hun a phan oedd hi yn y printio, roedd hi'n gwisgo *overall* dros ei dillad.

Ei horiau fel *pay clerk* oedd 9 tan 5.30.

Roedd undeb yno, meddai, a doedd hi ddim yn aelod. Dydy hi ddim yn gwybod pam lai ond o'r cyflog roedden nhw'n tynnu pres i dalu'r undeb a'r pensiwn. Mae hi'n dal i gael pensiwn ei gŵr, sydd wedi marw erbyn hyn. Mae'r cwmni wedi bod yn dda iawn iddi er mai dim ond am 3-4 blynedd y bu hi yno. *Godsend* mae'n galw'r arian hwn. Fitter oedd ei gwr, yn trwsio a chadw'r peiriannau i gyd. Mae llun cynnar o'r fitters, gan gynnwys ei gŵr, sef VN027.4.

Doedd hi ddim yn nabod ei gwr cyn mynd i Cookes er ei fod o'n dod o Benrhyndeudraeth, achos roedd hi'n byw ym Mhorthmadog. Roedden nhw'n canlyn am 4 blynedd cyn priodi a gorffennodd Beryl weithio ar ôl priodi. Roedd beic modur ganddo ac roedd llawer o ddyinion o Cookes yn mynd i Ynys Manaw ar gyfer y rasys TT; aeth ei gŵr hefyd sawl gwaith ac unwaith aeth Beryl gyda fo. Mae'n cofio mynd ar gefn y beic efo'i gŵr trwy bentref Cwm Celyn cyn iddo fo ddod yn dam Tryweryn.

Doedden nhw ddim yn mynd allan i'r dafarn gyda'r nos ond roedden nhw'n mynd i'r sinema weithiau, rhannu gofal y plant rhyngddynt. Roedden nhw'n '*reit homely*' meddai. Doedd Beryl ddim yn yfed. Roedd rhai o'r gweithwyr yn mynd allan dros y penwythnos neu i'r *old time dancing* yn y pentref.

Roedd ei gŵr yn Cookes am 35 o flynyddoedd a phan gafodd o anrheg am yr amser hwn, cafodd Beryl watsh aur hefyd, yr un sydd ganddi yn y llun uchod. Cafodd ei gŵr watsh ar ôl 20 o flynyddoedd yn y gwaith a set de arian am 35 o flynyddoedd, llun VN027.7. Cafodd pawb anrhegion o'r fath.

Roedd y cwmni yn rhoi parti Nadolig i'r gweithwyr a hefyd roedd 'na stafell hamdden fawr a chytiau tenis yno. Roedd Beryl yn chwarae tenis ar ôl gwaith neu ar ddydd Sadwrn. Un tro mae'n cofio chwarae yn erbyn pobl Minffordd. Roedd y plant hefyd yn cael parti Nadolig yn yr ystafell hamdden. Os oedd cyflwyniad mawr, roedden nhw'n mynd i Westy St David's yn Harlech.

34.00 Yn y cinio Nadolig, dim ond y gweithwyr oedd yn mynd, dim eu teuluoedd.

Roedd hi'n cael gwyliau o bythefnos yn yr haf, pan oedd y lle yn cau a dim ond gofalwr nos yn gweithio. Doedd Beryl a'i gŵr ddim yn mynd i ffwrdd, dim ond am driphau dydd i lefydd fel Ynys Môn am bicnic, neu i'r sŵ. Aeth unwaith â'r plant i Ynys Manaw. Roedd y gweithwyr yn cael y

gwyliau banc arferol.

**Gadawodd Beryl Cookes pan oedd hi'n disgwyl ei phlentyn cyntaf.** Roedd gan ei mam ddwy o genod gartref ar y pryd felly doedd Beryl ddim eisiau iddi ofalu am ei phlentyn hi hefyd. A doedd dim y fath beth â *creche* a doedd hi ddim yn gallu talu am rywun i warchod. Priododd hi yn 1954 a chafodd ei merch ei geni ym mis Tachwedd 1955. Roedd Beryl yn ddigon bodlon i adael a'r amser hynny roedd merched yn priodi a chael plant. Mae'n wahanol i ferched heddiw sydd â mwy o gyfle i fynd ymlaen i bethau eraill.

Ar ôl gadael Cookes, pan oedd ei merch Carol yn 12 a'i mab Gareth yn 9, aeth Beryl i weithio mewn siop ffrwythau, lle roedd ffrind iddi yn rhoi gorau iddi, ac yn gofyn a oedd Beryl eisiau cymryd ei lle. Ar ôl hynny, cafodd hi swydd yn Bron Garth yn nyrsio, er nad oedd hi ddim eisiau yn y dechrau, ond bu hi yno am 20 mlynedd. Ymddeolodd pan oedd yn rhaid iddi i warchod ei hwyron.

Roedd ei gŵr yn Cookes tan i'r cwmni orffen. Roedden nhw'n teithio llawer ar ôl hynny, gan gynnwys gwyliau da yn yr USA, efo *lump sum* roedd ei gŵr wedi'i gael gan y cwmni. Wrth edrych yn ôl ar ei gwaith yn Cookes, mae'n cofio'r ffatri fel lle hapus, roedd pawb yn ffrindiau, a fedr hi ddim esbonio'r peth, ond roedd pawb yn un, y gweithwyr, y rheolwyr, merched y swyddfa, y cantîn. Roedd pawb yn ymwybodol fod o'n lle peryglus i weithio ynddo, ond ddim yn siarad am y peth hyd at y ffrwydrad mawr yn 1957, achos roedd yn rhaid i'r cwmni fynd i'r llys. **Mae'n meddwl bod clustiau ei gŵr wedi'u heffeithio gan y ffrwydrad hwn, achos roedd o'n weddol agos i'r cwt, ond wnaethon nhw ddim deud dim wrth neb. Aeth ei gŵr yn fwy distaw ar ôl y ffrwydrad hwn,** achos cafodd 4 eu lladd. Rai blynyddoedd ar ôl hyn, pan oedd Beryl yn gweithio yn Bron Garth, efo dynes o'r enw Mari, cafodd dyn ei ladd wrth yr afon yn Cookes, gŵr Mari.

Dydy hi ddim yn cofio streic yno ac mae'n dweud bod dim byd arall yn yr ardal. Roedd ei gŵr, Owen Gwilym, wedi dechrau yn Cookes yn 14 oed ond pan gychwynnodd yr Ail Ryfel Byd, aeth o i'r fyddin, a dychwelodd i'r ffatri ar ddiwedd y rhyfel. Mae llawer o ferched wedi cael hyd i wŵr yn Cookes, meddai, a llawer o dynion wedi cael hyd i wraig.

Roedd Beryl yn Cookes Explosives o 1950 tan 1954. Y dyddiau yma, mae'n gwneud gwaith gwirfoddol, felly mae'n dal i fod yn brysur.

Hyd 50 munund

### *English summary*

#### **Cookes Explosives, Penrhyndeudraeth (1950-54)**

**Interviewee:** VN027 Beryl Jones

**Date:** 26: 06: 2014

**Interviewer:** Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

Beryl was born on 20<sup>th</sup> June, 1932 in Porthmadog and went to school there but missed two years as she contracted TB following a fall that broke her arm. She spent those two years in Llangwyfan hospital and when she returned to school it was too late for her to try her scholarship exams so she had to go to the Central School in Porthmadog. Beryl is angry about the lost years of her education but she went on to excel at sport. She had one brother the same age as her and two sisters who came later on, after the war.

**After reaching Level 4 she was keen to leave school and go out to work.** When Beryl was sixteen, she and her friend went down to Cookes to ask for a job. She began in the printing department. She knew Mr Griffiths, the under manager, so she didn't need to have an interview. She had an opportunity to work in the telephone exchange after leaving school but didn't take it and rejected the idea of shop work as well. **She would not be able to work as a nurse or hair dresser because of her arm. She was not able to work in the sheds either so she didn't work with explosives.**

She knew many people there and it was like a family. She wasn't nervous because there had been no recent explosions. (She had left before the explosion that took place in 1957.) The girl who got a job the same time as her went into the sheds to work.

Beryl's mother worked as a cleaner and her father was a stone mason. They were happy that she had a job. Her first job was printing the paper in which to wrap the explosives. **She worked on a machine which was like a newspaper printing machine and the paper came in big reams and went out in rolls. Other girls made tubes and put powder in them.** There was a foreman and two or three girls working with her in the printing room. She wasn't given any training but learned on-the-job.

**12.50 She liked the job but moved on to become Mr Mitchell's clerk, who was foreman over the powder girls.** The company looked after the workers and had a doctor - Dr Pritchard and then Dr Griffiths - nurses and a surgery near the canteen. They gave the patients regular examinations and took urine samples. The workers would get terrible headaches, especially in the summer holidays because they hadn't been in contact with the gelnite for a fortnight. Beryl never had a headache because she didn't work with the powder, but her husband who was a fitter, suffered terribly with them.

She was in the printing room for about ten months. She worked forty four hours a week (not on weekends). She had to clock in and out and her card number was 323, and her husband's number was 77. She remembers other workers' numbers as well, even after all this time.

She would go to the canteen during breaks and lunch times. The manageress was called Mrs Williams and there was a pretty girl who worked there named Megan Jones from Dalsarnau who had blonde wavy hair and who everybody called the 'pin up'. (Megan didn't want to be interviewed for the project.) Mrs William cooked, and Megan and two others helped.

She would be on her feet all day in the print room, although she didn't consider this a problem. Her first wage was two pounds something and when she became a pay clerk it rose to sixteen pounds. Mr Griffith asked her if she wanted the job after somebody left, and she worked with four other girls there - Dorothy, Megan, Mary, and Gwenni. The workers were on piece work and the girls in the office calculated their wages. They were paid time and a half for overtime and double time for working on a Sunday. The hours would be on the card which the workers brought along to the

wages office. The girls on piece work received a bonus if they'd worked hard and could earn good wages. It was Beryl's job to work this out. On a Friday, they would open the window of the wages office and two of them gave the wage packets out. Workers would come to the window, give their number, and the girls would give them their pay packet. **The girls in the office were on a monthly salary but the workers in the sheds were paid weekly and could earn much more than them.** If they didn't work hard the workers in the sheds only received an hourly rate.

21.20 **The office girls didn't work overtime.** The men worked overtime to do maintenance work such as fixing machines.

**Only the girls who worked in the sheathing or packing earned enough money to afford expensive clothes, like those in Hebe Sports in Porthmadog. Beryl thinks they deserved these nice clothes because of the work they did.**

They placed powder into tubes in "sheathing" and packing was where the gellignite was inserted. There were four girls working in each shed. Everybody socialised in the canteen. **The girls from the sheds had to remove their shoes before entering the sheds, and leave personal belongings outside. They wore overalls and overboots to work.** When she was printing, Beryl wore an overall over her clothes and when she worked in the office she just wore her own clothes.

Her hours as a pay clerk were 9 until 5.30.

There was a union although she wasn't a member. She still receives her dead husband's pension. The company has been good to her even though she was only there for three to four years. There is an early photograph of the fitters, including her husband (VN027.4).

Even though he was from Penrhyndeudraeth, she didn't know her husband before going to work in Cookes, because she was living in Porthmadog. They were courting for four years before getting married and she gave up work after marrying. Many of the men from Cookes would go to the Isle of Man for the TT Races. Her husband had a motor bike and went several times, and Beryl went with him once. She remembers riding through the village of Cwm Celyn with him before it was flooded.

They didn't go out to the pub but would go to the cinema sometimes and share the responsibility of child care. They were homely people and Beryl didn't drink.

Beryl's husband was in Cookes for thirty five years and when he received a present for this service Beryl received a gold watch. (She is wearing it in the photograph.) Her husband received a watch after twenty years of service and a silver tea set after thirty five years. (VN027.7.)

The company gave the workers a Christmas lunch. There was a large leisure room for workers and tennis facilities. Beryl used to play tennis after work or on a Saturday and remembers playing against Minffordd. The children's Christmas party would be held in the leisure room. If there was a large presentation they would go to the St David's Hotel in Harlech.

The factory would shut down for two weeks every summer and all the workers would be off on holiday (apart from the caretaker.) Beryl and her husband would go on day trips to places like Anglesey for a picnic, or go to the zoo. She once took the children to the Isle of Man. They were also off on bank holidays.

**Beryl left Cookes when she was expecting her first child in 1955.** Her mother had two little girls

at the time so she couldn't help look after Beryl's baby as well. There were no creche facilities available in those days and she couldn't pay somebody to look after the baby. Beryl was quite happy to be leaving. That's what women did after having a child.

When her daughter Carol was twelve and her son Gareth was nine, Beryl's friend asked her if she would like her job in a fruit shop. After that, she got a nursing job in Bron Garth and was there for twenty years. She retired in order to look after her grandchildren.

Her husband was in Cookes until the place closed and he received a redundancy lump sum. They then spent some time travelling, including a holiday to the USA. She remembers Cookes as a happy place and everybody got on well.

Everybody knew it was a dangerous place to work but never talked about it until the explosion in 1957. **She thinks her husband's ears were affected by the explosion because he was quite near the shed at the time, and he was deeply affected emotionally by what happened because four people were killed.**

Beryl doesn't remember any strikes taking place. There were no other employment options in the area. Her husband (Owen Gwilym) started there when he was fourteen years old but left to go to fight when the war broke out before returning to the factory. Many women found a husband in Cookes.

Beryl worked at Cookes Explosives from 1950 until 1954 but still keeps busy now doing voluntary work.

Duration: 50 minutes